# Gogledd Cymru



# Adroddiad Blynyddol
2013-14

# Cyflwyniad

## Croeso

Mae NOMS yng Nghymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau MAPPA er mwyn atal pobl rhag dodo yn ddioddefwyr o niwed difrifol. Er bod cyfrif troseddau treisgar a rhywiol yn ganran fach o'r holl droseddau yng Nghymru, mae'r niwed a achosir gan droseddau o'r fath yn sylweddol i ddioddefwyr, eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae gan ddioddefwyr presennol a phosibl yr hawl i deimlo'n ddiogel ac er nad yw hi byth yn bosib cael gwared ar y rig yn gyfan gwbwl mae MAPPA wedi ei gynllunio i ddod a asiantaethau at eu gilydd i helpu rheoli'r risg hwnnw ac i'w gadwn i isafswm.

Mae NOMS yn Nghymru a phob un o'r asiantaethau sy'n ymwneud â MAPPA yn gosod amddiffyn y cyhoedd fel eu blaenoriaeth uchaf ac mae adroddiad hwn yn adlewyrchu penderfyniad pawb dan sylw i sicrhau bod y maes gwaith pwysig hwn yn parhau i fod ar flaen y gad. Yw wyf yn falch o'n staff, eu llwyddiannau yn ystod y flwyddyn diwethaf a'u ymrwymiad i ragoriaeth ar gyfer MAPPA yng Nghymru.

Nawr yn ei 13eg flwyddyn mae Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Amlasiantaeth Gogledd Cymru yn parhau i ddarparu fframwaith ar gyfer amddiffyn y cyhoedd yn erbyn y grŵp o droseddwyr sy'n peri'r risg uchaf o niwed i'r cyhoedd.

Mae nifer y troseddau rhyw a treisgar a gyflawnwyd yng Ngogledd Cymru yn cynrychioli cyfran fechan o gyfanswm y troseddau a gofnodwyd, ond gall y troseddau hyn gael effaith mawr ar y dioddefwyr a'u teuluoedd. Dyna pam yma yng Ngogledd Cymry mae amddiffyn y cyhoedd rhag niwed a all rhai troseddwyr beri yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i Heddlu Gogledd Cymru, gan weithio mewn partneriaeth a'r Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Carchardai a Asiantaethau sydd a Dyletswydd i Gydweithredu.
Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cymryd rhan weithredol yn MAPPA ar bob lefel, gyda cyfrifoldeb mewn ehangu cynlluniau rheoli risg cadarn ynghyd a darparu hyfforddiant gwerthfawr yng ngwaith MAPPA i nifer o asiantaethau.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi ei gynllunio i rhoi golwg gyffredinol ar waith Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Amlasiantaeth Gogledd Cymru, a'r gobaith yw y byddwch yn gweld yr adroddiad hwn yn diddorol a llawn gwybodaeth.



Sarah Payne
Prif Weithredwr
Gwasanaeth Prawf
Cenedlaethol



Ian Mullholland
Pennaeth Grŵp Datblygu Busnes
HMPS ac Is-Gyfarwyddwr Dalfeydd
Cymru



Mark Polin
Prif Gwnstabl
Heddlu Gogledd Cymru

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

(a) Mae MAPPA (Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth) yn gyfres o drefniadau sy’n rheoli’r risg a gyflwynir gan y troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar mwyaf difrifol (Troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA) yn unol ag adrannau 325 i 327B o’r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

(b) Maent yn dod â’r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a’r Gwasanaethau Carchardai ym mhob un o’r 42 Maes yng Nghymru a Lloegr at ei gilydd i’r hyn y cyfeirir ato fel yr Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

(c) Mae dyletswydd ar nifer o asiantaethau eraill i gydweithio â’r Awdurdod Cyfrifol Mae’r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymddiriedolaethau Iechyd, Timau Troseddau Ieuenctid, Canolfan Byd Gwaith ac Awdurdodau Tai ac Addysg Lleol.

(ch) Mae’n rhaid i'r Awdurdod sy’n gyfrifol benodi dau Gynghorwr Lleyg i eistedd ar bob Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA ochr yn ochr â chynrychiolwyr uwch o bob un o’r Awdurdodau Cyfrifol a’r asiantaethau sydd â dyletswydd i gydweithredu.

(e) Mae’r cynghorwyr lleyg yn aelodau o’r cyhoedd sydd â dim cysylltiad â’r busnes o reoli troseddwyr MAPPA ond sy’n gweithredu fel arsyllwyr annibynnol ond gwybodus; sy’n gallu gofyn cwestiynau efallai na fyddai’r gweithwyr proffesiynol sy’n ymwneud yn agos â’r gwaith yn meddwl eu gofyn. Byddant hefyd yn gallu cyfrannu eu dealltwriaeth a’u safbwyntiau am y gymuned leol (mae’n rhaid iddynt fod yn byw yn y cymunedau hynny neu fod â chysylltiadau cryf â nhw).

## Sut mae MAPPA'n gweithio

- Bydd troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA yn cael eu hadnabod a bydd gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu gan yr asiantaethau er mwyn gallu cyfrannu at asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg y rhai hynny sy’n eu rheoli neu'n eu goruchwylio.

- Yn y mwyafrif o achosion, dyna pa mor bell mae MAPPA yn mynd ond mewn rhai achosion fe benderfynir bod angen rheolaeth aml-asiantaeth weithredol. Mewn achosion o’r fath fe gynhelir cyfarfodydd MAPPA rheolaidd a fynychir gan yr ymarferwyr asiantaeth perthnasol.

- Mae 3 categori o droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA: **Categori 1 –** troseddwyr rhyw cofrestredig; **Categori 2** – (yn bennaf) troseddwyr treisgar sydd wedi’u dedfrydu i garchar am 12 mis neu fwy; a **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan gategorïau 1 neu 2 ond sy’n peri risg o niwed difrifol.

- Mae tair lefel reoli yn bodoli er mwyn sicrhau bod yr adnoddau yn canolbwyntio ar yr achosion lle mae eu hangen fwyaf; y rhai hynny sy’n cynnwys risg uwch o niwed difrifol fel arfer. Mae **Lefel 1** yn cynnwys rheolaeth gan asiantaeth gyffredin (h.y. dim cyfarfodydd nac adnoddau MAPPA); **Lefel 2** yw lle bydd angen ymyrraeth gan fwy nag un asiantaeth er mwyn rheoli'r troseddwr ond nad yw'r cynlluniau rheoli risg angen presenoldeb nac ymrwymiad adnoddau ar lefel uwch. Ble byddai angen goruchwyliaeth uwch, byddai’r achos yn cael ei reoli ar **Lefel 3**.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR. System TG genedlaethol yw hon ar gyfer rheoli pobl sy’n peri risg difrifol o niwed i'r cyhoedd. Mae’r Heddlu wedi bod yn defnyddio ViSOR ers 2005 ond, ers Mehefin 2008 mae ViSOR wedi bod yn gwbl weithredol sydd wedi galluogi, am y tro cyntaf, staff allweddol o’r Heddlu a’r Gwasanaeth Carchardai i weithio ar yr un system TG. Mae hyn wedi sicrhau gwelliant o ran amseriad asesiadau risg ac ymyrraeth er mwyn atal troseddu. Mae defnydd ar y cyd o ViSOR yn cynyddu’r gallu i rannu cudd-wybodaeth ledled sefydliadau ac yn galluogi gwybodaeth allweddol i gael ei throsglwyddo pan fydd y troseddwr risg uchel hyn yn symud, gan ehangu mesurau diogelu'r cyhoedd. Mae holl adroddiadau MAPPA Cymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn: www.justice.gov.uk

# Ystadegau MAPPA

| **Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA fel ar 31 Mawrth 2013** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 1 | 456 | 182 | - | 638 |
| Lefel 2 | 39 | 20 | 0 | 59 |
| Lefel 3 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Cyfanswm | 496 | 202 | 0 | 698 |

| **Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA yn Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 2 | 56 | 77 | 25 | 158 |
| Lefel 3 | 4 | 3 | 0 | 7 |
| Cyfanswm | 60 | 80 | 25 | 165 |

| | |
|---|---|
| **RSOau a gafodd rybudd/euogfarn am dorri'r gofynion gorchymyn hysbysu** | 14 |

| **Gorchmynion Cyfyngol ar gyfer troseddwyr Categori 1** | |
|---|---|
| **SOPOs, NOs a FTOs a roddwyd gan y llysoedd** | |
| SOPOs | 56 |
| NOs | 2 |
| FTOs | 0 |

| Troseddwyr Lefel 2 a 3 a ddychwelodd i'r ddalfa | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig** | **Categori 2: Troseddwyr treisgar** | **Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill** | **Cyfanswm** |
| **Torri amodau trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 6 | 6 | 0 | 12 |
| Lefel 3 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Cyfanswm | 7 | 6 | 0 | 13 |
| **Torri amodau SOPO** | | | | |
| Lefel 2 | 1 | - | - | 1 |
| Lefel 3 | 0 | - | - | 0 |
| Cyfanswm | 1 | - | - | 1 |

# Esboniad o’r ystadegau yn y tablau

## Cefndir MAPPA

Mae cyfanswm y troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA, yn ôl categori, yn adlewyrchu'r darlun ar 31 Mawrth 2013, (h.y. ciplun). Mae gweddill y data yn ymwneud â’r cyfnod 1 Ebrill 2013 i 31 Mawrth 2014.

**(a) Troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA –** mae nifer o droseddwyr yn cael eu hystyried gan y gyfraith fel rhai cymwys ar gyfer rheolaeth MAPPA oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhywiol a threisgar penodol a/neu bod risg iddynt achosi niwed, er bod y rhan fwyaf ohonynt (91% eleni) yn cael eu rheoli gan drefniadau asiantaeth cyffredin (Lefel 1) yn hytrach na thrwy gyfarfodydd MAPPA.

**Troseddwyr Rhyw Cofrestredig (RSO) -** troseddwyr rhyw sy'n gorfod hysbysu'r heddlu o'u henwau, eu cyfeiriad a manylion personol eraill a'u hysbysu hefyd o unrhyw newidiadau wedi hynny (cyfeirir at hyn fel “angen i hysbysu.”) Mae methu â chydymffurfio â gofynion hysbysiad yn drosedd a allai olygu uchafswm o 5 mlynedd yn y carchar.

**Troseddwyr Treisgar –** mae’r categori hwn yn cynnwys troseddwyr treisgar sydd wedi eu dedfrydu i garchar am 12 mis neu fwy, neu'n cael eu cadw o dan orchmynion ysbyty. Mae’r categori hefyd yn cynnwys nifer fechan o droseddwyr rhyw nad ydynt yn cofrestru a throseddwyr sydd wedi eu gwahardd rhag gweithio â phlant;

**Troseddwyr Peryglus Eraill –** troseddwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer y 2 gategori MAPPA arall ond sydd ar hyn o bryd yn peri risg o achosi niwed difrifol sydd angen ei reoli drwy gyfarfodydd MAPPA.

**Torri amodau trwydded –** bydd troseddwyr sy’n cael eu rhyddhau i’r gymuned yn dilyn cyfnod o garchar o 12 mis neu fwy yn destun trwydded ag amodau’n perthyn iddi (o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf). Os na fydd yr amodau hyn yn cael eu cydymffurfio â nhw, cymerir camau torri amodau a gellir rhoi’r troseddwr yn ôl yn y carchar.

**Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw (SOPO) –** Gall llys wneud SOPO pan fyddant yn ymdrin â throseddwyr rhyw penodol neu pan fydd yr heddlu’n gwneud cais arbennig o ganlyniad i ymddygiad y troseddwyr yn y gymuned. Mae’r gorchymyn llawn yn para am o leiaf 5 mlynedd a gallant fod yn barhaol. Bydd SOPO’n gofyn bod angen i’r unigolyn gofrestru fel troseddwr rhyw a gall gynnwys amodau, atal y troseddwr rhag loetran wrth ysgolion neu feysydd chwarae er enghraifft. Os bydd y troseddwr yn methu â chydymffurfio (h.y. torri’r amodau) ag anghenion y gorchymyn, gellir mynd ag ef yn ôl i’r llys a gellir rhoi dedfryd o hyd at 5 mlynedd o garchar iddynt.

**Gorchmynion Hysbysu –** mae’r rhain yn gofyn bod troseddwyr rhyw sydd wedi eu cael yn euog dramor yn cofrestru â’r heddlu er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn y DU rhag y risgiau maent yn eu bygwth. Gall yr heddlu wneud cais i’r llys am orchymyn mewn perthynas â throseddwyr sydd eisoes yn y DU neu sy’n bwriadu ymweld â’r DU.

**Gorchmynion Teithio Dramor –** mae’r rhain yn atal troseddwyr sydd wedi eu cael yn euog am droseddau rhyw yn erbyn plant rhag teithio dramor pan fo angen gwneud hynny er mwyn diogelu plant rhag y risg o fod yn destun troseddau rhyw.

# Tudalen Lleol

## Cynhadledd MAPPA 2013




Daeth dros 130 o gynrychiolwyr o Heddlu, Gwasanaeth Prawf ac asiantaethau partner at ei gilydd yn Llanelwy ym Mis Mai 2013 ar gyfer Cynhadledd MAPPA Gogledd Cymru 2013.

Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar arfer a chlywodd y rhai oedd yn bresennol y gan amryw o siaradwyr gwadd, nid yn unig am y Trefniadau Diogelu'r Cyhoedd Amlasiantaeth (MAPPA), ond hefyd am ddatblygiad technoleg sydd yn gymorth i rheoli troseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw.

Teitl y gynhadledd oedd "Diogelu'r Cyhoedd drwy Bartneriaeth", y gynhadledd hon oedd y cyntaf o'i fath i'w chynnal ers 2009. Trefnwyd y Gynhadledd gan Carolyn Clark, Cydlynydd MAPPA Gogledd Cymru ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru a thîm bychan o gydweithwyr, ar ôl cael arian gan Wasanaeth Rheoli Troseddwyr cenedlaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Profodd y diwrnod i fod yn lwyddiant ysgubol gyda cynrychiolwyr yn mynychu nid yn unig o'r tri asiantaeth partner allweddol (Heddlu, Gwasanaeth Prawf a Charcharau) ond hefyd daeth cynrychiolwyr o'r Asiantaethau Tai, Cyfiawnder Ieuenctid, Gwasanaeth Cymdeithasol, Y Bwrdd Iechyd Lleol a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Agorwyd y gynhadledd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Winston Roddick, gyd anerchiad cyweirnod yn amlygu pwysigrwydd gwaith partneriaeth. Cafwyd anerchiad wedyn gan Becky Hart, pennaeth NOMS MAPPA yn sôn am y sefyllfa genedlaethol, datblygiadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd ac a fydd yn digwydd yn y dyfodol. Cafwyd cyflwyniad hefyd ar ddyfodol Profion Polygraff yn rheolaeth rhai troseddwyr risg uchel.

Cafwyd astudiaeth achos o droseddwr o'r gymuned leol. Drwy'r cyflwyniad hwn fe wnaed yn amlwg i pawb oedd yn bresennol pwysigrwydd cydweithio aml asiantaeth effeithiol. Cyflwynwyd yr astudiaeth achos gan y Rheolwr Troseddwr y Gwasanaeth a'r Heddlu, Goruchwyliwr Troseddwr y Carcharau, aelod o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Lleol, Swyddog Tai ac aelod o Wasanaeth Fforensig Gogledd Cymru. Mae gwaith yr asiantaethau hyn a sut maent yn parhau i weithio a chefnogi'r unigolyn tra ar yr un pryd yn diogelu'r cyhoedd yn rhoi gwir cipolwg i mewn i waith partneriaeth effeithiol.

Ar yr un pryd a rhoi cyfle i rwydweithio gyda chydweithwyr, cafodd y rhai oedd yn bresennol gyfle i fanteisio i'r eithaf o'r cyflwyniadau drwy sesiynau cwestiwn ac ateb ar ôl y cyflwyniadau.

Roedd sesiynau'r prynhawn yr un mor werthfawr a defnyddiol. Cynhaliwyd amrywiaeth o weithdai a roddodd gyfle i bobl ddysgu mwy am y datblygiadau diweddaraf gyda tagiau a dyfais i gynorthwyo gyda monitro alcohol. Roedd cyfle hefyd i ddysgu mwy am waith y prosiect arloesol Cylchoedd o Gefnogaeth a Atebolrwydd – COSA (Circles of Support and Accountability), sy'n gynnwys gwirfoddolwyr ar draws Gogledd Cymru yn gweithio gyda troseddwyr.
Rhoddodd y trydydd gweithdy gyfle i rhai ddysgu am y gwaith penodol mae'r Gwasanaeth Prawf yn ei wneud gyda troseddwyr Risg Uchel.

Meddai Ditectif Uwch-Arolygydd John Hanson o Heddlu Gogledd Cymru "mae'r digwyddiad amlasinataeth hwn wedi tynnu sylw at gryfderau ac ymrwymiad sydd gan yr asiantaethau tuag at rheoli y risgiau a berir gan droseddwyr treisgar a rhywiol sy'n byw yn Gogledd Cymru, yn effeithiol a thrwy drefniadau diogelu'r cyhoedd aml asiantaeth sefydlog.

Meddai Andy Jones, Prif Weithredwr Cynorthwyol Ymddiriedolaeth Prawf Gogledd Cymru, "Bellach yn ei deuddegfed mlynedd, mae Trefniadau Diogelu'r Cyhoedd Amlasiantaeth Gogledd Cymru yn parhau i ddarparu fframwaith sy'n diogelu'r cyhoedd rhag y grŵp bychan o droseddwyr sy'n peri'r risg uchaf o niwed i'r cyhoedd. Mae'n braf nodi lefel y diddordeb ac ymrwymiad y mae'r holl asiantaethau partner wedi'i ddangos tuag at barhau i gydweithio er mwyn gwella ein harferion a sicrhau'r lefelau uchel o amddiffyniad i'n Cymunedau."



# Adeilad Cymeradwy Ty Newydd

Mae Adeilad Cymeradwy Ty Newydd yn sefydliad preswyl 23 gwely i oedolion gwrywaidd ac yn un o bedwar o'u math yng Nghymru. Mae'r safleoedd Cymeradwy eraill wedi eu lleoli yn Wrecsam, Caerdydd ac Abertawe.

Mae Ty Newydd yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer troseddwyr oedolion gwrywaidd sy'n peri risg o niwed, troseddwyr sydd yn bennaf yn cael eu rheoli o fewn y broses MAPPA. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud o ar draws Gogledd Cymru ac yn achlysurol o tu allan i Gymru pan fydd rhesymau penodol i unigolion gael eu lleoli tu alla o'u hardal.

Mae mwyafrif helaeth o'r trigolion a ddaw i Ty Newydd yma oherwydd amodau eu trwydded ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar, ond weithiau bydd atgyfeiriadau yn cael eu derbyn ar rhai sydd ar Fechnïaeth o'r Llys neu ar Gofyniad Preswylio fel rhan o Orchymyn Dedfryd Ohiriedig neu Orchymyn Deddf Cymunedol.

Cyn iddynt gyrraedd Ty Newydd rydym yn ymdrechu i gael rhyw fath o gysylltiad gyda'r unigolyn, drwy lythyr neu cynnal cyfweliad cyswllt fideo fel y gall rheolau a disgwyliadau eu trafod yn llawn. O bryd i'w gilydd bydd ymweliad a'r unigolyn yn y ddalfa yn cael ei wneud, fel arfer mewn achosion lle ceir anghenion iechyd meddwl neu corfforol sylweddol.

Bydd pob Preswylydd yn cael Gweithiwr Allweddol a bydd rhain yn gyfrifol am rheoli amser y preswylydd yn Ty Newydd. Bydd eu Rheolwr Troseddu, neu eu Swyddog Prawf yn gyfrifol am gadw rheolaeth o'u trwydded neu Orchymyn. Disgwylir y bydd yr unigolion yn dychwelyd i ardal o gwmpas eu cartref yn dilyn eu ymadawiad o Ty Newydd.

Yn ystod eu cyfnod yn Ty Newydd bydd pob Preswylwyr yn gorfod cwblhau o leiaf 22 awr o weithgareddau strwythuredig yn wythnosol. Mae rhai gweithgareddau yn orfodol, ond gall rhai unigolion ddewis rhai gweithgareddau eu hunain yn ddibynnol ar eu diddordebau. Mae'r gweithgareddau yn amrywio o waith strwythuredig un i un gyda'r gweithiwr allweddol sydd yn canolbwyntio ar waith troseddol i gyrsiau rheoli arian a sgiliau bywyd. Mae cryn dipyn o amser yn cael ei dreulio yn ymgymryd ar hyn a elwir yn weithgareddau "prosocial" a all fod yn anffurfiol iawn ond sy'n rhoi cyfle, sydd aml, fawr ei angen i unigolion i ddatblygu eu sgiliau rhyngbersonol. Mae cyfleoedd hefyd ar gael drwy asiantaethau a sefydliadau allanol i ymgymryd â gweithgareddau awyr agored a gweithgareddau eraill sydd yn cymryd y trigolion allan o'r amgylchedd preswyl. Mae asiantaethau hefyd yn mynychu Ty Newydd i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant yn ogystal â sut i wneud cais ar gyfer cyflogaeth yn ddiogel drwy gwrs datgelu.
Mae staff Ty Newydd yn ymgymryd â nifer o weithgareddau ymarferol gan gynnwys coginio, garddio a hyd yn oed noson o ddadlau bywiog sydd wedi bod yn llwyddiant annisgwyl. Mae Ty Newydd hefyd wrthi'n cynnal prosiect 8 mis o hyd, a ariennir gan y Cyngor Celfyddydau Cymru gyda awdur a ffotograffydd proffesiynol, lle mae'r trigolion yn cael sesiwn ysgrifennu creadigol a sesiwn ffotograffiaeth wythnosol Bydd canlyniadau'r prosiect hwn yn mynd ar daith o amgylch llyfrgelloedd Cymru.

Yn ogystal a darparu amrywiaeth o weithgareddau uchod mae staff Ty newydd yn gweithion' hynod o agos gyda'r Heddlu lleol, ac yn arbennig gyda Uned Amddiffyn y Cyhoedd lleol. Caiff ymddygiad a symudiadau eu monitro yn agos ac bydd rôl Ty Newydd yn symud yn ddeinamig rhwng hynny o adsefydlu i amddiffyn a gorfodi.
Mae Ty Newydd ar hyn o bryd yn gweithio tuag at Gwobr "The Royal Society of Psychiatrists Enabling Environment".

## Gwasanaeth Tân a Achub Gogledd Cymru

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi prynu systemau diffodd tân i'w gosod mewn cartrefi pobl bregus ar draws Gogledd Cymru.
Mae'r unedau wedi eu cynllunio i'w gosod mewn mannau o risg penodol ac yn darparu gwarchodfa un ystafell. Maent yn system tasgu dŵr gwasgedd isel, hunan gynhwysol sydd yn hawdd i'w gosod i ddarparu diogelwch effeithiol rhag tân ar gyfer pobl bregus sydd o bosibl yn gyfyngedig i un ystafell.
Mae'r unedau yn darparu naill ai ateb dros dro neu barhaol ar gyfer pobl am ba bynnag reswm sydd yn gyfyngedig i un ystafell; mae'r unedau hyn wedi eu cysylltu a synhwyrydd mwg sydd yn caniatáu datgeliad cynnar a gweithred effeithiol mewn digwyddiad o dân.
O'i gyflyru, bydd y system yn sydyn iawn yn cyfyngu'r tân yn yr ystafell / uned, gan leihau lledaeniad y tân yn ei darddiad gan leihau yr effaith trawmatig ar y preswylydd.
Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Prawf ac wedi darparu a gosod un uned diffodd tân yn Adeilad Cymeradwy Ty Newydd, Bangor a dwy uned yn Plas Y Wern, Wrecsam.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adroddiad Ymgynghorydd Lleyg

Adroddiad gan Mary Brough

Mae fy nghyfraniad i MAPPA Gogledd Cymru wedi bod yn gyfyngedig y flwyddyn hon oherwydd rhesymau personol. Fodd bynnag, mae presenoldeb ar y Bwrdd Rheoli Strategol a Is-grŵp Archwilio wedi dangos i mi er gwaethaf toriadau ariannol ar draws yr **holl** asiantaethau nid yw'r ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf wedi lleihau. Byddai wedi bod yn hawdd i asiantaethau honni fod toriadau staffio yn rhwystro presenoldeb, ond mae'r archwiliadau a gynhaliwyd ar gyfer y Bwrdd Rheoli Strategol yn dangos nad yw hyn yn wir. Mae cydweithredu ac ymrwymiad yn dal yn nodweddiadol o MAPPA Gogledd Cymru.

# COSA

**Cefnogi Troseddwyr Rhyw i fyw yn ddiogel yn ein Cymunedau.**

Mae'n saith mlynedd bellach ers i'r prosiect Cylchoedd Cefnogaeth ac Atebolrwydd (COSA- Circles of Support and Accountability) cyntaf gael ei sefydlu yng Ngogledd Cymru. Yn ôl yn 2007, rhoddodd Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru arian i Ymyriadau Cyfiawnder Cymunedol Cymru (CJIW) i ddatblygu'r prosiect COSA cyntaf yng Nghymru. Os nad ydych yn gyfarwydd â'r hyn a wnawn, mae COSA yn:

**"adeiladu cymunedau mwy diogel drwy gael gwirfoddolwyr lleol i weithio gyda throseddwyr rhyw i leihau eu teimlad o fod wedi'u cau allan a chefnogi eu hailintegreiddio a thrwy hynny eu hatal rhag cyflawni troseddau rhyw eto".**

Ar y cychwyn roedd pryderon na fyddai pobl yng Ngogledd Cymru ddiddordeb mewn gwirfoddoli er mwyn cefnogi'r prosiect, yn enwedig o ystyried y llif cyson o straeon yn y cyfryngau ynglŷn â phlant yn cael eu cam drin yn rhywiol. Fodd bynnag, ers 2007 mae COSA wedi ennyn diddordeb llawer o bobl o wahanol gymunedau yng Ngogledd Cymru a hyd yma llwyddwyd i recriwtio, hyfforddi a cefnogi dros 140 o wirfoddolwyr.

Ar gyfer y rhai ohonoch sydd ddim yn ymwybodol beth yr ydym yn ei wneud, mae COSA yn fenter a gynlluniwyd i ehangu integreiddio diogel y troseddwyr rhywiol i mewn i'r gymuned. Mae COSA yn anelu i leihau yn sylweddol y perygl o gam-drin rhywiol drwy gynorthwyo a chefnogi troseddwyr sydd wedi dangos ymrwymiad i beidio â throseddu eto. Bydd gwirfoddolwyr sydd wedi'i dethol yn ofalus a'u hyfforddi'n drwyadl yn cynorthwyo'r troseddwyr wrth iddynt ailintegreiddio yn eu cymunedau, gan roi'r cyfle iddynt fyw bywydau cyfrifol, cynhyrchiol ac atebol.

Yn gryno,

- COSA yw ymateb gwirfoddolwyr mewn cymunedol lleol i'r dymuniadau sydd gan bawb i weld cymuned mwy diogel.
- Mae gwirfoddolwyr COSA yn gweithio gyda'r troseddwyr mwyaf ynysig; unigolion lle nad oes fawr ddim gefnogaeth ar gel iddyn ar wahân i gefnogaeth asiantaethau statudol.
- Pwrpas COSA yw atal rhagor o droseddau a niwed.

Mae COSA yn cynnig cylch o wirfoddolwyr sydd wedi eu hyfforddi a'u cefnogi ar gyfer achosion MAPPA Lefel 2 a 3 ar draws Gogledd Cymru.

# Stop it Now! Wales

Rhaglen atal cam-drin plan yn rhywiol a caiff ei ariannu gan Llywodraeth Cymru a'r Lucy Faithful Foundation yw Stop it Now! Wales. Rydym yn gweithio i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth rywiol drwy weithio gyda rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd trwy addysgu a codi ymwybyddiaeth. Rydym hefyd yn cynnig llinell cymorth cyfrinachol ar gyfer unrhyw oedolyn sy'n pryderu bod plentyn / plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol: 0808 1000 900.

Mae ein gwasanaeth a'n hadnoddau yn berthnasol i rieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol, gweithwyr gofal plant, gwirfoddolwyr a staff ysgolion; yn wir, unrhyw un sydd a chysylltiad â phlant neu teuluoedd fel rhan o'u bywydau personol neu broffesiynol.

Mae sesiynau codi ymwybyddiaeth ar hyn o bryd yn cael eu darparu ar draws Cymru gyfan, Gillian Jones, Rheolwr Cynorthwyol yr Ymgyrch Cenedlaethol sy'n gweithio o Sir Fflint sy'n rheoli darpariaeth y rhaglen yng Ngogledd Cymru a Powys. Mae'r amrywiaeth o sesiynau sydd ar gael yn cynnwys Parents Protect!, Proffesionals Protect! Prevention of Child Sexual Exploitation! a Internet Safety!

Mae Gillian yn siarad yn frwdfrydig ynglŷn â sut mae'r gwaith yng Ngogledd Cymru wedi tyfu dros y ddwy flynedd diwethaf. Meddai: "sicrhaodd Stop it Now! Wales gyllid i ehangu ei waith ar draws Cymru gyfan yn 2012, ac mae darpariaeth y rhaglen ar draws Gogledd Cymru wedi cynyddu'n fawr. Yn ystod 2013/14 cynhaliwyd bron i 100 o sesiynau Parents Protect!, gan gyrraedd 1,253 o unigolion a fynychodd un o'r sesiynau gan ennill gwybodaeth ychwanegol a hanfodol i'w help atal cam-drin plant yn rhywiol".

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon derbyniodd Stop it Now! Wales cyllid am un flwyddyn gan Llywodraeth Cymru, ynghyd a swm ariannol llai gan raglen Conwy Families First (CFF). Maer cyllid CFF wedi'i anelu at ddarparu sesiwn newydd Paretns Protect! Additional Needs, er mwyn diwallu anghenion y teuluoedd sydd yn gofalu am blant sydd ag anghenion ychwanegol.

Mae rhaglen Stop it Now! Wales ar gael ar draws Gymru gyfan i unrhyw oedolyn, rhiant, gofalwr neu weithiwr proffesiynol a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ei ddarganfod ar www.stopitnow.org.uk/wales. Am ragor o wybodaeth am archebu sesiwn 2 awr codi ymwybyddiaeth rhad ac am ddim yng Ngogledd Cymru, cysylltwch a Gillian Jones, Rheolwr Cynorthwyol yr Ymgyrch Cenedlaethol ar 07803 629 628 neu gjones@stopitnow.or.uk

## Gwasanaeth Dioddefwr Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

**1) Pwy sy'n gymwys ar gyfer Gwasanaeth Dioddefwr Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol?**

O dan y Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004, mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gyfrifol am gysylltu gyda dioddefwyr a / neu teuluoedd o

- Troseddwyr sy'n derbyn dedfryd o 12 mis neu fwy o garchar ar ôl cael eu dyfarnu'n euog o droseddau rhywiol neu treisgar. (Rhestr Atodlen 15). Gan gynnwys aflonyddu, bygwth i ladd, carcharu ffug, llosgi bwriadol, marwolaeth trwy yrru'n beryglus / diofal, ymosodiadau, affräe, pob trosedd rhywiol a byrgleriaeth ddwys.

- Troseddwyr sy'n euog o drosedd rhywiol neu treisgar ac yn derbyn Gorchymyn Ysbyty Anghyfyngedig/Cyfyngedig; neu'n cael eu trosglwyddo i garchar o dan y Deddf Iechyd Meddwl 1983 gyda Chyfarwyddyd Cyfyngedig; neu yn derbyn Cyfarwyddyd Ysbyty a Chyfyngedig.

- Lle mae'r trosedd wedi arwain at marwolaeth y dioddefwr.

- Gall ddioddefwyr ddewis peidio a derbyn cefnogaeth ar gwybodaeth a gynigir gan y Gwasanaeth. Fodd bynnag gallant ddewis derbyn cefnogaeth y Gwasanaeth ar unrhyw amser yn ystod cyfnod y troseddwyr yn y carchar neu ar drwydded.

- Ni all Swyddogion Dioddefwr gynnig cwnsela ond gallent gyfeirio at asiantaethau priodol.

- Nid yw achosion statudol yn cynnwys byrgleriaeth, ymosod cyffredin neu achos o dorri'r heddwch. Fodd bynnag, gall Y Gwasanaeth ymgymryd ac unrhyw achos yn ôl disgresiwn os yw'r risg i unrhyw unigolion yn uchel.

**2) Beth all y Gwasanaeth Dioddefwr Y Gwasanaeth prawf ei wneud?**

Rhannu gwybodaeth:

- O ran y broses ddedfrydu.
- Os yw'r troseddwr yn gymwys ar gyfer unrhyw absenoldeb dros dro o'r carchar.
- Pan fydd y troseddwyr yn cael eu ystyried ar gyfer rhyddhau a sicrhau bod barn a phryderon y dioddefwyr yn cael eu cynrychioli mewn cynlluniau rhyddhau ac amodau trwydded.
- Y broses Datganiad Personol y Dioddefwr – pan fydd y dioddefwr neu deulu yn cael rhoi gwybodaeth am effaith y drosedd / troseddwyr ar eu bywydau yn uniongyrchol i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau.

**3) Beth mae'r Swyddog Dioddefwr yn ei wneud gyda'r gwybodaeth?**

Ni chaiff gwybodaeth eu ddatgelu i'r troseddwr. Fodd bynnag, mae'r gwybodaeth yn cael; ei rhannu gydag asiantaethau diogelu perthnasol gan gynnwys holl gyfarfodydd lefel 1, 2 a 3 MAPPA.

**4) Beth yw rôl Swyddog Dioddefwr mewn cyfarfod MAPPA?**

Mae Swyddogion Dioddefwr yn aelodau sefydlog mewn cyfarfodydd Lefel 1 a 2 MAPPA ar draws Gogledd Cymru ac mewn cyfarfodydd Lefel 3 pan mae dioddefwr wedi ei nodi. Mae Swyddog Dioddefwr yn sicrhau bod barn, pryderon a sylwadau y dioddefwyr neu aelodau o'r teulu mewn achosion lle mae'r dioddefwr wedi marw yn cael eu rhannu yn uniongyrchol i mewn i'r broses. Mae'r Swyddogion Dioddefwyr yn sicrhau bod rhain yn cael eu hystyried wrth i gynlluniau gael eu gwneud ar gyfer ryddhau y troseddwr o'r carchar neu rheoli unigolion yn y gymuned.

**5) Beth sy'n digwydd unwaith y bydd y troseddwr yn cael ei rhyddhau?**

Bydd y troseddwr yn cael ei rhyddhau ar drwydded ac o dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf hyd ar ddiwedd eu dedfryd. Mae amodau trwydded yn cael eu rhoi yn eu lle ac mae rhaid i'r troseddwr gadw atynt. Mae Swyddogion Troseddwr yn cynnig amodau ychwanegol o ddim cyswllt a gwaharddiad o ardaloedd penodol er mwyn amddiffyn y dioddefwr. Gall amodau trwydded pwrpasol (bespoke) hefyd eu hystyried.

**6) Beth ellir ei wneud i amddiffyn y dioddefwr?**

- Paratoi a hysbysu'r dioddefwr a/neu eu/teuluoedd o pan fydd troseddwyr yn cael reu rhyddhau a gosod amodau trwydded amddiffynnol.
- Adeilad Cymaradwy gyda "cyrffyw" ac amseroedd arwyddo i mewn yn ystod y dydd ychwanegol.
- Adnabod risg gan ddefnyddio offer asesu megis CADDA DASH, Stalking Dash, SARA (Sposual Assault Risk Assessment).
- Gweithio ar y cyd gyda'r Heddlu, IDVA, CPN, Gweithwyr Cymdeithasol.
- Cyfeirio at Gwasanaeth Amddiffyn y Plan / Plan Mewn Angen
- Cyfeirio at y Meddyg Teulu / Cwnsela / Gwasanaethau Iechyd Meddwl / Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol.
- Cefnogi ceisiadau Tai.
- Creu cynlluniau Diogelwch a all gynnwys Diogelwch Tân / Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol.

**7) Beth yw'r Awdurdod Diogelwch Anafiadau Troseddol**

Sefydliad Llywodraeth a all dalu arian (iawndal) i bobl sydd wedi cael eu hanafu yn gorfforol neu feddyliol oherwydd eu bod yn ddioddefwyr di-fai o drosedd

treisgar yw Awdurdod Diogelwch Anafiadau Troseddol. Maent yn gynnig gwasanaeth prosesu ceisiadau yn rhad ac am ddim.

www.justice.gov.uk/victims-and-witnesses/cica

**8) Sut mae cysylltu gyda'r Uned Dioddefwr Lleol?**

*Ynys Môn / Gwynedd / Conwy / Sir Ddinbych / Fflint / Wrecsam*
25 Conwy Road, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7AA
Rhif Ffon: 01492 524000

Mae holl adroddiadau MAPPA Cymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn:

www.justice.gov.uk

.

National Probation Service

HM PRISON SERVICE

HEDDLU GOGLEDD CYMRU Gogledd Cymru diogelach | NORTH WALES POLICE A safer North Wales